Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

Polisi caffael

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod unrhyw asedau, nwyddau neu wasanaethau (ac eithrio costau teithio) sydd wedi eu caffael ar ran Cymdeithas Gwenynwyr Cymru (WBKA) yn:

- Rhoi y gwerth gorau am arian

- Addas ar gyfer y diben a fwriedir

- wedi eu caffael drwy ddefnyddio systemau sy'n ddiogel, yn dryloyw, moesol, deg i bawb ac yn unol â gofynion ein Cyfansoddiad

- yn cael eu ariannu yn unol â rheolau WBKA ac yn cydymffurfio ag unrhyw amodau a bennir gan ddarparu grantiau neu fathau eraill o gyllid allanol

Systemau

Eitemau llai na £ 100

- Bydd rhai Swyddogion neu Ymddiriedolwyr WBKA, yn eu Cylch Gorchwyl, efo cymeradwyaeth i wario arian i brynu nwyddau o gyfanswm gwerth llai na £100 mewn un trafodiad. Enghreifftiau yw stampiau, inciau cyfrifiadur, papur a disgiau ymhlith yr eitemau traul.

Eitemau neu wasanaethau yn is na £ 1000 mewn gwerth:

- Mi wneith un Ymddiriedolwr sydd efo gwybodaeth briodol a chylch gwaith gan y Tîm Rheoli lunio manyleb byr fydd yn cael ei gytuno gyda Ymddiriedolwr arall

- Gellir gofyn am gytundeb a thystiolaeth drwy e-bost

- Bydd ymdrechion rhesymol i gael y gwerth gorau yn cael ei fodloni gan gofnod o ddau ddyfynbris llafar wedi eu cadarnhau trwy e-bost. Bydd cytundeb i brynu yn cael ei gadarnhau gan ail Ymddiriedolwr

- Bydd cofnod byr o'r broses yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd i'w hymgorffori i agenda cyfarfod nesaf y Tîm Rheoli.

Eitemau neu wasanaethau unigol neu gronnus werth mwy na £ 1000;

- Bydd y Tîm Rheoli yn nodi Ymddiriedolwr priodol sydd, gyda chymorth pobl eraill priodol lle bo angen, yn llunio manyleb fanwl i adlewyrchu dibenion y polisi hwn a fydd yn cael ei ddosbarthu i bob aelod o'r Tîm Rheoli i'w ystyried

- Yn dilyn unrhyw addasiad ar ôl sylwadau bydd y fanyleb yn cael ei ailgylchredeg. Ar ôl derbyn negeseuon e-bost sy'n dangos mwyafrif syml o'r holl Ymddiriedolwyr sydd o blaid, gellir gofyn am ddyfynbrisiau gan o leiaf dri cyflenwyr addas

- Lle mae'n debygol y bydd eisiau yr eitem (au) neu'r gwasanaeth (au) eto o fewn cyfnod o ddeuddeg mis dylai'r dyfynbris gynnwys yr opsiwn hwn

- Dylai crynodeb o'r dyfynbrisiau cael eu paratoi gan gynnwys argymhelliad i gael ei dderbyn. Byddai argymhelliad ar gyfer derbyn fel rheol yn seiliedig ar y gost, ond ar gyfer dibenion gwerth am arian dylid hefyd ystyried y ffactorau canlynol:

a) Gallu cyflenwr i gydymffurfio â safonau ansawdd gofynnol ac amserlenni cyflenwi

b) Unrhyw warantau / gwarantau a ddarperir

c) Profiad / Enw Da, gan gynnwys profiad blaenorol o wasanaeth

d) Costau Cyflenwi / Postio

- Dylai'r argymhelliad gael ei anfon ymlaen i'r Ysgrifennydd am benderfyniad yng nghyfarfod y Tîm Rheoli nesaf

- O dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes amser i gael trafodaeth ffurfiol a chymeradwyaeth mewn cyfarfod Tîm Rheoli, gellir gofyn am gymeradwyaeth drwy e-bost. Yn yr amgylchiadau hyn bydd cymeradwyaeth ond yn cael ei gadarnhau gan dderbyn negeseuon e-bost yn nodi cymeradwyaeth unfrydol gan bob Ymddiriedolwr.

Gorchmynion

- Dylai unrhyw orchymyn a waned, yn dilyn y defnydd o'r system briodol a amlinellir uchod (yn seiliedig ar werth) gael ei wneud gan ddefnyddio ddefnyddio'r ffurflen archeb WBKA - Atodiad 1